

Teulu Davies ac arlunwyr a cherddorion Belgaidd ar ffo yng Nghymru

[*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru / National Library of Wales Journal* Rhifyn Cyf. 22, rh. 2 (Gaeaf 1981), p. 226-233.]

<http://welshjournals.llgc.org.uk/browse/viewpage/llgc-id:1277425/llgc-id:1286537/llgc-id:1286637/getText>

Roedd teulu Davies Llandinam yn ddyledus am eu cyfoeth i David Davies a oedd wedi crynhoi ffortiwn anferth o ganlyniad i'w ddiddordebau glo a rheilffordd yn y 19eg. Datblygodd yr wyrion, David Davies (yr Arglwydd Davies cyntaf yn hwyrach), a Gwendoline a Margaret Davies, ddiddordebau dyngarol cryf, a dymuniad i ddefnyddio'u harian er lles Cymru.

Ym mis Medi 1914 penderfynodd y teulu Davies wahodd arlunwyr a cherddorion Belgaidd oedd ar ffo i ymsefydlu yng nghanolbarth Cymru. Gobeithiaf ddangos sut yr ystyrid yr anogaeth a'r gefnogaeth ariannol hyn nid yn unig fel dull o noddi artistiaid Belgaidd, ond hefyd fel modd o roi hwb i obeithion y teulu am adnewyddiad diwylliannol yng Nghymru.

Yn gynnar ym mis Hydref 1914 ysgrifennodd Gwendoline Davies:

'My sister and I together with Professor Tom Jones went to Alexandra Palace the week before last in search for refugees. Our original intention was to get people of the artisan or trades people class but we found that the Roman Catholics are most vigilant and are preventing these people as far as possible from being taken into Protestant homes.' **1**

Roedden nhw wedi clywed bod llawer o Felgiaid o'r dosbarthiadau addysgedig hefyd yn ddiymgeledd, a threfnwyd i griw o bobl fynd draw i Wlad Belg i gysylltu a nhw'n uniongyrchol. Pan gyrhaeddodd y Belgiaid Aberystwyth, cyhoeddwyd datganiad yn y papurau lleol ar Hydref 7fed 1914:

'A contingent of Belgian refugees reached Aberystwyth on Saturday evening by the express train from Euston and received a hearty welcome by inhabitants. It is stated that the adults are distinguished professional teachers, musicians and painters of a high station in life. The maintenance of a large number of the refugees has been undertaken by a well known benefactor.' **2**

Erbyn mis Hydref roedd Belgiaid yn llifo i mewn i Brydain, ac erbyn Ionawr 1915 roedd tua miliwn ohonynt (chweched ran poblogaeth Gwlad Belg) wedi ffoi o'u gwlad. Daeth tua 11,000 ohonynt i Brydain. Yn gynnar ym mis Medi ffurfiwyd 'Pwyllgor er Cymorth Ffoaduriaid Gwlad Belg' fel cyfundrefn ganolog, ac mewn trefi a phentrefi ar draws y wlad sefydlwyd pwyllgorau bach eraill er mwyn trefnu llety a chroeso i grwpiau o Felgiaid. Fel arfer bydden nhw'n cyrraedd fel teuluoedd: roedd yn well gan y rhai oedd a digon o arian aros yn agos i Lundain, ond anfonwyd llawer o grwpiau i'r taleithiau. Cynigiodd yr Arglwydd Bute ddarparu cartrefi i 3,000 o ffoaduriaid yng Nghaerdydd a Rothesay. **3** Yng Nghymru cafwyd cynigion o Aberteifi, Aberaeron, Llandysul, Llanbedr Pont Steffan a'r Bermo, i enwi ond ychydig. Yn Llanbedr daethpwyd o hyd i dy addas ar gyfer 15 o ffoaduriaid; rhoddwyd dodrefn iddynt gan y trigolion lleol, a chawsant fwyd yn rhad ac am ddim gan siop leol. **4** Wrth gwrs roedd yna lawer mwy o wragedd a phlant nag o ddynion oherwydd disgwyliad i ddynion iach ymuno a'r fyddin. Roedd yna broblem dod o hyd i waith ar gyfer cynifer o bobl ac roedd yr undebau llafur ar eu gwyliadwriaeth. O ganlyniad roedd llawer o'r ffoaduriaid yn dibynnu ar elusen.

Erbyn Ionawr 1915 roedd gweithdai arbennig yn cael eu sefydlu i wneud dillad i'w hanfon i Wlad Belg a'u gwerthu yno fel nad oedd yna gystadleuaeth gyda diwydiant Prydeinig. Ond ar y cyfan gwnaethpwyd pob peth i groesawu'r Belgiaid i Brydain. Fe gyhoeddodd y Western Mail golofn mewn Fflemeg hyd yn oed i adrodd y newyddion diweddaraf am y rhyfel.

O ganlyniad i'r diddordeb mawr yng Ngwlad Belg a grëwyd gan ddigwyddiadau'r rhyfel a'r angen i godi arian, cafwyd cyfres o ddarlithiau, cyngherddau, llyfrau rhodd, arddangosfeydd celf ac erthyglau am y wlad. Yn Rhagfyr 1914 cyhoeddodd *The Studio* y gyntaf o gyfres o dair erthygl ar 'Belgian Artists in England'. **5** Darluniwyd yr erthyglau'n effeithiol, er bod yna ragfarn o blaid rhai artistiaid oherwydd yr anhawster o ddod o hyd i ffotograffau o waith y lleill. Trefnwyd nifer o arddangosfeydd yn ogystal, a'r bwysicaf o'r rhain oedd adran Felgaid y 'War Relief Exhibition' yn Nhŷ Burlington yn Chwefror 1914. Drwy lwc arddangoswyd enghreifftiau o waith Belgaid modern yn yr Alban yn 1914, ac oherwydd y rhyfel fe arhoson nhw ym Mhrydain. Y rhain a ffurfiodd graidd yr arddangosfa. Cynhaliwyd arddangosfeydd eraill o waith Belgaid yng Nghlwb Celf Ridley, Clwb Celf Rhyngwladol y Merched, Sefydliad Brenhinol Arlunwyr Dyfrliw a Goupils. Mae'n amheus a gafodd rhai arlunwyr Belgaid gyfle gwell i arddangos eu gwaith!

Ym mis Tachwedd 1914 cyhoeddodd The Welsh Outlook erthygl fer ar arlunwyr Belgaid yng Nghymru.

'Probably no part of the Kingdom outside London, has so many distinguished Belgians among its guests as are now to be found in Wales. At their head stand E. Verhaeren, **6** who is staying at Llwynarthan. A few miles away at Barry is Emile Claus, **7** Belgium's best known painter. At Aberystwyth we have another able Sculptor, M. Minne,...With him at Aberystwyth De Saedeleer, Van der Woostyne, and L. Petrucci **8** all well known names in art circles on the continent.'

Ond y paragraff olaf yw'r un mwyaf dadlennol:

'The study of painting and sculpture is in a deplorably backward condition in Wales. Shall we take full and immediate advantage of the unexpected presence In our midst of this brilliant group; take counsel with them; give them facilities to exercise their genius; give our young art students a chance to see their work? What will the three colleges do? and the Art Academies? and the Art Schools? The opportunity is unique but we may be too *parochial* to seize it'.

Arwyddwyd yr erthygl F.P., ac fe'i hysgrifennwyd gan Dr Fabrice Polderman, gŵr o Wlad Belg a oedd, mae'n debyg, yn dysgu yng Ngholeg y Brifysgol Caerdydd. Fodd bynnag, mae hefyd yn adlewyrchu polisi mwy cyffredinol The Welsh Outlook a gyllidwyd gan David Davies, ac a olygwyd ar y pryd gan Thomas Jones **9**, a roddai bwys mawr bob amser ar ystyriaethau aesthetig. Y nod oedd darparu cylchgrawn misol i Gymru a fyddai'n ysgogi diddordeb yn yr etifeddiaeth ddiwylliannol Gymreig, ond gan ddarparu hefyd gysylltiadau a gwleidyddiaeth a diwylliant y tu hwnt i Gymru.

Roedd Thomas Jones yn gyn-fyfyriwr Aberystwyth a ddaeth yn ddarlithydd yn Glasgow ac yn Athro Economeg yn Belffast, ond a oedd wedi dychwelyd i Gymru (ei brif deyrngarwch) yn 1910 i drefnu'r ymgyrch yn erbyn y diciâu a gyllidwyd gan David Davies. Roedd yn gynghorwr agos i'r teulu Davies cyfan, ac ym mis Medi 1914 roedd wedi teithio i Wlad Belg gyda Polderman a W.J. Burdon-Evans, a oedd ar y pryd yn Ysgrifennydd i David Davies. Mae'n sicr mai Polderman a ddarparodd y cysylltiad a'r Belgiaid.

Mae Madame Gevaert-Minne'n cofio'r digwyddiad fel a ganlyn:

'One afternoon, my father, George Minne, Valerius de Saedeleer and Gustave Van de Woestijne, met Mr. and Mrs. Petrucci, refugees from Brussels as they were talking in the little village of St. Anna ter Muiden. The Petrucci's just had the visit of Dr. Polderman, a Belgian Professor in Cardiff who came with the fantastic message from Mrs. David Davies of Llandinam and her daughters Miss Gwen and Miss Daisy Davies: to invite Belgian artists to come to Wales, where they would not only be able to continue their work but also to bring a specific talent to the Welsh people. This idea of the ladies Davies was splendidly philanthropic, one might say they foresaw the union of the peoples and the flourishing of their cultures throughout the world.' **10**

Mewn llythyr at T.J. (fel yr adwaenid Thomas Jones) yn 1933, dywed Burdon-Evans:

'You will remember that we went to Belgium towards the end of September 1914 and were there a couple of weeks I think. We visited Ostend, Zeebrugge, Knocke, Bruges, Ghent, Newport, Heyst and Le Zoute. We brought back 91 refugees of the better class, and these were planted mostly at Aberystwyth and Barry. Later, most of those at Aberystwyth were distributed to different places and several families were transferred to the Garden Village of Llanidloes.

Among those refugees were the two ladies De Cazenave, Minne (Sculptor) and Van de Woestyne (artist)...

Mrs. and the Misses Davies bore the whole cost until the party was distributed, and maintained those at Llanidloes. I think there were seven families and that they numbered about 30.

I cannot tell you what the total cost was for the whole period, but it ran into hundreds of pounds. Not only did the ladies bear the cost but, as you know, they took an active interest in the whole thing.' **11**

Yn ystod 1915 cyfeiriodd y Welsh Outlook lawer o weithiau at yr arlunwyr Belgaid, gan gynnwys ffotograffau o'r arlunwyr ac atgynrychiadau o'u gwaith. Ym mis Mai 1915 cyhoeddwyd erthygl ar George Minne gan Van de Woestijne, ac ym mis Medi 1915 ysgrifennodd Raffael Petrucci 'The Soul of Belgium'.

Daethpwyd a'r arddangosfa o waith arlunwyr Belgaid yn yr Academi Frenhinol i Gaerdydd, ac roedd yn un o'r arddangosfeydd cynharaf i gael ei threfnu gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru yr oedd y teulu Davies yn noddwyr pwysig ohoni. Prynodd Cyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru dri darn o waith, a chyflwynwyd un arall gan un o'r arlunwyr. Prynodd y chwirydd Davies hefyd eitemau o'r arddangosfa, sef fwy na thebyg y ddau waith gan Emile Fabry a Piere Paulus a adawyd i'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghymyrrodd Margaret Davies yn 1963. **12**

Amharwyd ar un arall o gynlluniau'r teulu ar gyfer adnewyddiad diwylliannol yng Nghymru gan y rhyfel. Bu'n rhaid gohirio agoriad swyddogol yr Ysgol Cerddoriaeth Offerynnol yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth a sefydlwyd gan Gwen Davies **13** am fod pennaeth apwyntiedig yr ysgol, Mr Gaston Le Feuve, yn gwasanaethu ym myddin Ffrainc. Ni dderbyniodd yr apwyntiad erioed mewn gwirionedd. Serch hynny, er gwaethaf peth petruster, penderfynodd Gwen Davies barhau gyda gweddill yr athrawon apwyntiedig, y cyfan yn Ffrancod.

Bu hyfforddi cerddoriaeth yn rhan o gwricwlwm y Coleg ers y dyddiau cynharaf, ond roedd wedi tueddu i ganolbwyntio ar ganu a cherddoriaeth gorawl. Sylfaenwyd yr ysgol newydd ar gerddorfa linyddol broffesiynol fach a fyddai'n rhoi hyfforddiant yn eu hofferynnau a hefyd yn perfformio yn Aberystwyth a'r cylch. Roedd hi'n nodweddiadol o'r teulu Davies nad edrychion nhw tua Chymru, na hyd yn oed Lloegr, am eu cerddorion, ond eu bod yn ei themlo'n rheidrydd i'w mewnfario o Ffrainc. Ond roedd yna gysylltiad hefyd drwy Madame Barbier,

gwraig yr Athro Ffrangeg. Roedd hi'n gerddor dawnus, ac mae'n debyg iddi fod yn ddylanwadol iawn yn y cynlluniau cynnar ar gyfer y grŵp. Pan benderfynodd Gwen Davies yn 1916 i dynnu ei chefnogaeth i'r Ysgol Gerdd yn ôl, yn bennaf oherwydd y rhyfel a'i theimlad bod 'mwy o angen ei hegnioedd rywle arall', fe deimlodd Madame Barbier i'r byw. Cychwynwyd cyrsiau yn y Coleg ym mis Hydref gyda hyfforddiant mewn offerynnau llinynnol, canu a phiano. Eisoes yn y tymor cyntaf roedd yna 137 o ddisgyblion cerddoriaeth llinynnol. Ystyriai Miss Davies fewnlifiad grŵp o gerddorion Belgaid i Aberystwyth yn ychwanegiad defnyddiol i'r offerynwyr oedd newydd eu hapwyntio:

'We thought we would like the more interesting people at Aberystwyth and that some of the musicians would be helpful in starting the projected orchestra along the coast.' **15**

Roedd o leiaf pump o'r ffoaduriaid yn Aberystwyth yn gerddorion, a'r ddau mwyaf adnabyddus oedd y brodyr Lavoureux: roedd Marcel yn bianydd i'r Llys Brenhinol ym Mrwsel, a Nicolas yn feiolinydd. Rhwng Rhagfyr 1914 a Chwefror 1915 roedden nhw ymhlith grŵp o wyth cerddor Belgaid a roddodd gyfres o 22 cyngerdd drwy ganolbarth Cymru i godi arian ar gyfer ffoaduriaid Belgaid. Cynigiwyd tal (honorarium) iddynt na chafodd ei dalu tan 1919, ac erbyn hynny dim ond un, Mlle Fousney, oedd a chyfeiriad yn Aberystwyth, er bod nifer yn byw yn Llundain. **16**

Roedd 130 o Felgiaid yn Aberystwyth ac mae'n debyg i lawer ohonynt gofrestru mewn dosbarthiadau yn y Coleg. Serch hynny mae yna arwyddion nad oedd popeth yn rhedeg yn llyfn yn Aberystwyth. O'r cychwyn cyntaf roedd y bobl leol yn siomedig na chaent letya'r ffoaduriaid yn eu cartrefi eu hunain. Teimlwyd y dylai pobl broffesiynol gael llety parchus yng ngwesty'r Queen's. Cododd problemau pellach rai misoedd wedyn pan orfodwyd ail garfan o bobl ddieithr ar Aberystwyth gyda dyfodiad y Fyddin Diriogaethol. Yn Chwefror 1915 ysgrifennodd Gwen Davies:

'I am trying to move a few of the Belgians to Llanidloes. The arrival of the troops in Aberystwyth must have complicated things very much. I am sure our troubles with the Belgians dates from their advent.' **17**

Roedd prif grŵp yr artistiaid yn Aberystwyth wedi dod o drefedigaeth o arlunwyr Belgaid yn Sint Marten Latem y tu allan i Ghent, gan gynnwys Georges Minne y cerflunydd, ei wraig a 6 o blant, Valerius de Saedeleer, ei wraig a 5 merch, a Gustav van der Woestijne, ei wraig a 4 o blant (ganed pumed plentyn yn union wedi iddynt gyrraedd Cymru, a chafodd yr enw David, ar ol David Davies).

Roedd George Minne yn gerflunydd o fri rhyngwladol erbyn hynny. Ef oedd yr unig aelod o'r grŵp y cynrychiolodd ei waith yn yr Academi Frenhinol a'r arddangosfeydd yng Nghaerdydd, ond roedd hi'n amlwg ei bod hi'n anodd iawn iddo barhau i weithio fel cerflunydd oherwydd yr anhawster o gael gafael ar ddeunyddiau. Roedd chwech o blant y Minnes gyda nhw. Roedd y ddau fachgen hynaf yn y fyddin, a chreodd hynny ofid mawr i'r rhieni, gan gyfrannu at anhawster Minne i ymgartrefu yn ei wlad newydd. Arhoson nhw yn Llanidloes drwy gydol y rhyfel, wedi'u cynnal bron yn gyfan gwbl gan y teulu Davies. Trodd Minne at ddarluniau ar y thema mam a phlentyn, a gynrychiolai'r symbol 'Heddwch' iddo, ac yn ystod y pedair blynedd cynhyrchodd 400 o ddarluniau a gludodd yn ôl i Wlad Belg. Serch hynny fe adawodd ddarn mwy o waith a baentiwyd ar wal y tŷ yn Llanidloes. Wedi iddo adael, diogelodd y chwirydd Davies ef y tu ôl i wydr. **18** Mae dau ddarlun gan George Minne yng Ngregynog.

Aeth Gustav van der Woestijne hefyd i fyw yn Llanidloes am gyfnod, ond yna symudodd i Lundain i weithio fel paentiwr portreadau yn bennaf.

Ym mis Hydref 1914 roedd yr Athro Fleure, Athro Sŵoleg ar y pryd, ac wedyn Athro Daearyddiaeth ac Anthropoleg, yn Aberystwyth, wedi cyd-deithio a'r Belgiaid o Lundain i Aberystwyth ar ran y teulu Davies. Yr adeg honno roedd wrthi'n ad-drefnu'r casgliadau celf a'r amgueddfa yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth, a sicrhaodd gymorth nifer o'r Belgiaid i wneud gwaith atgyweirio, glanhau ac arddangos. Cofnodir enwau M. Hannard, M. Bernaerts, G. Minne a De Saedeleer yn adroddiadau'r Amgueddfa.

O'r rhain, gan Valerius de Saedeleer oedd y cysylltiad hwyaf a'r dref. Cymerodd y teulu dŷ, Ty'n-lon yn Rhydyfelin, y tu allan i Aberystwyth, gan ddilyn ffordd syml ac efallai 'hunangynhaliol' o fyw. Roedd Valerius yn ffigur trawiadol yn y dref gan ei fod yn ddyn mawr a wisgai clogyn du hir a het ddu gantel lydan bob amser. Mynychai'r merched yr ysgol sirol ac roedd y teulu'n adnabyddus iawn ymhlith y bobl leol. Byddai de Saedeleer yn aml yn talu ei filiau a nwyddau, a rhoddwyd paentiadau i'r meddyg, y deintydd a'i deiliwr mewn cyfnewid am eu gwasanaeth. Yn Chwefror 1916 cynhaliodd arddangosfa yn Neuadd Alexandra (neuadd breswyl myfyrwyr) ac ymddengys i'w dirluniau o olygfeydd lleol ddod yn dra phoblogaidd. Byddai'n gweithio mewn olew a dyfriw, gan ddefnyddio golchiadau tenau o baent dros gyfansoddiadau a ddyluniwyd yn ofalus. Mewn rhai achosion mae ei ddull yn awgrymu gwastatau ffurfiau fel y gwelir mewn printiadau Japaneaidd. Teimlodd y beirniad yn y Cambrian News reidrwydd i rybuddio'i ddarlennwyr fod gan M. de Saedeleer 'lygaid y cyntefig', **19** gan ailadrodd bwynt a wnaed gan M. Buschmann yn *The Studio*. Yn ystod eu hamser yn Aberystwyth datblygodd y teulu ddiddordeb mewn gwehyddu, a gwisgai'r merched ddillad o ddefnydd a wehyddwyd a llaw. Gwnaent hefyd dapestriau yn ôl dyluniadau eu tad. Arweiniodd y sgiliau hyn at waith iddynt ar ôl 1918 yn adran newydd Celf a Chrefft Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth, sef un o brosiectau eraill y chwirydd Davies ar gyfer y Coleg. Roedd sefydlu Amgueddfa Gelf a Chrefft ac Adran Gelf a Chrefft yn syniad ar y cyd gan yr Athro Fleure, Thomas Jones a'r chwirydd Davies, a roddodd £5,000 yn 1918 i waddoli'r Amgueddfa. Gobeithient y byddai hynny'n ysgogi datblygu mudiad crefft yng Nghymru. Roedd dylanwad William Morris a Mudiad Celf a Chrefft ddiweddy 19eg ym Mhrydain yn dal yn fyw, a'r syniad o drefedigaeth artistiaid mewn lleoliad gwledig heddychlon lle gallai artistiaid a chrefftwyr gydweithio yn dal yn ddeniadol. Yn ystod y blynyddoedd hyn roedd hadau'r syniad am Gregynog fel canolfan gelf a chrefft yng Nghymru yn dechrau egino. **20** Roedd Marie ac Elizabeth De Saedeleer, y ddwy ferch hynaf, yn dysgu gwehyddu, tapestri a rhwymo, ac ar un adeg ystyriodd y teulu sefydlu diwydiant cartref i hyfforddi pobl leol mewn gwehyddu. **21** Ond yn 1920 fe benderfynon nhw ddychwelyd i Wlad Belg, ac yn ôl yr Athro Fleure, un o'r prif resymau dros hynny oedd y ffaith i Tom Jones fethu cael Prifathrawiaeth Aberystwyth. Mae hyd yn oed yn bosib eu bod wedi gobeithio y byddai De Saedeleer yn cael ei wneud yn bennaeth yr Adran Gelf a Chrefft. **22** Sefydlodd y teulu eu busnes yn Etchichove, gan enwi eu tŷ yn Ty'n-lon, ar ôl y tŷ yng Nghymru. Mae'r cwmni'n goroesi hyd heddiw, gan gynhyrchu tapestri a gwehyddwaith ac yn arddangos yn rhyngwladol.

Yn ystod y rhyfel roedd y De Saedeleers wedi lletya milwr Belgiaid ifanc, Edgar Gevaert, a oedd wedi'i ryddhau o Ysbyty Milwrol Wrecsam yn dal i ddioddef gan glwyfau a siel-syfrdandod. Yn 1916 priododd Edgar ag un o ferched George Minne a mynd i fyw yn Llanidloes. Daeth yn arlunydd, ac arhosodd yr argraffiadau dwfn a adawyd arno yn ystod ei flynyddoedd yng Nghymru yn ddelweddau parhaus yn ei ddarluniau gweledigaethol. Un o'i ddarluniau gorau yw 'Peace', sy'n dangos pedwar plentyn yn trosglwyddo cynnyrch y tir i'w gilydd. Ar y dde mae mynyddoedd Cymru a phentre Cymreig, ac ar y chwith gyfoeth iseldiroedd Fflemaidd a phentref Fflemaidd. Mae'r Beibl yng nghanol y tu blaen ar agor ar 'y Bregeth ar y Mynydd'. Dymunai iddo fynegi ei ddyled i'r ddwy wlad, a'i obaith am gytgord rhwng y cenhedloedd yn y dyfodol. Roedd Edgar Gevaert, fel David Davies, yn ddelfrydwr, ac yn ymroddedig i achos gydfodolaeth heddychlon cenhedloedd. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'n rhaid iddo ffoi o'i wlad unwaith eto, yn rhannol o ganlyniad iddo gyhoeddi gweithiau yn erbyn rhyfel a Naziaeth.

Mae'n anodd mesur effeithiau mewnlifiad arlunwyr Belgaid i Gymru, **23** ond gellir tybio na chyflawnwyd y gobeithion a'r delfrydau cynnar a fynegwyd yn The Welsh Outlook. Serch hynny, fe wnaeth y teulu De Saedeleer argraff bendant ar Aberystwyth, ac mae hyd yn oed yn bosib iddynt fod yn ddylanwadol yn y cynlluniau cyntaf ar gyfer yr Adran Gelf a Chrefft yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth.

Ac mae arwyddocâd posibl i'r ffaith fod cnewyllyn y grŵp o artistiaid a ddaethpwyd i Aberystwyth gan y chwirydd Davies yn dod o gymuned o artistiaid yn Sint Marten Latem a gawsai eu dylanwadu gan ddelfrydau William Morris. Gallai presenoldeb y Belgaid fod wedi annog Thomas Jones a'r chwirydd i gynllunio cymuned debyg i artistiaid yng Ngregynog.

MOIRA VINCENELLI Aberystwyth

- 1 Gwen Davies to J. H. Davies October 4th 1914. N.L.W. J. H. Davies MSS. (Corr.).
- 2 Aberystwyth Dispatch, October 7th 1914.
- 3 The Times, September 8th 1914.
- 4 Aberystwyth Observer, November 21st 1914.
- 5 P. Buschmann, 'Belgian Artists in England', The Studio, Dec. 1914, Feb., 1915. April 1915, Colour magazine issued 'Belgian Art in Exile' a portfolio of illustrations of works by Belgian artists in 1916.
- 6 Emile Verhaeren (1855-1916), Belgian poet.
- 7 Emile Claus (1849-1924), painter, member of Royal Academy of Belgium.
- 8 Raffael L. Petrucci, Professor of History of Fine Art, Brussels.
- 9 See T. Jones Papers, Class H. Vol. 4, National Library of Wales Letter 25 gives the actual amounts received from Llandinam. David Davies also vetoed certain articles.
- 10 Madame Gevaert to the author June 1978.
- 11 Letter W. J. Burdon Evans to T.J. 1/11/1933 (Diary with letters unpublished), T. Jones Papers, National Library of Wales.
- 12 Piere Paulis 'La Fuite' 1914. Emile Fabry 'War' 1914.
- 13 Gwen Davies made a gift of £ 300 for 5 years. G. Davies to J. H. Davies, 4th October 1914, N.L.W. J. H. Davies MSS (Corr.).
- 14 G. Le Feuve, M. Henry Delange, M. Camille Dolobelle, M. Charles Turbour, Madame L. Andre Barbier.
- 15 Gwen Davies to J. H. Davies October 4th 1914. N.L.W. J. H. Davies MSS. (Corr.).
- 16 Belgian Refugee Concerts, MS National Library of Wales.
- 17 Gwen Davies to J. H. Davies, February 1915. N.L.W. J. H. Davies MSS. (Corr.).
- 18 Gwen Davies to T.J.
'Blaker went over to see the Minne's frescoes at Llanidloes and thinks them very fine. We should have glass put over them to preserve them.'
T. Jones Papers, Class R. Vol. 2 letter 19. National Library of Wales.
The work is now covered over with wallpaper.
- 19 *Cambrian News*, Feb. 18th, 1916.
- 20 Prys Morgan 'Life at Gregynog between the wars' in *Gregynog*, ed. G.T. Hughes suggests that Thomas Jones had perhaps 'planted the seed of a Morrison craft guild in their minds.' Dora Herbert Jones also recalled that Gwendoline Davies had discussed with her as early as 1916 or 1917 the idea that Gregynog might become the home of a craft guild or community.
- 21 Professor Fleure to T.J. October 10th 1918
'The De Saedeleer family could really organise weaving a winter work for a village and would like to do so.'
T. Jones Papers, Class W. Vol. 7 letter 26. National Library of Wales.
- 22 Professor Fleure to Miss Davies 16th March 1920

'If the De Saedleer family wants to stay I am only too glad to agree. They are valuable to the country. On the other hand I cannot urge them to stay under the circumstances created by Thomas Jones non-election,'

T. Jones Papers, Class W. Vol. 7 letter 68. National Library of Wales.

- 23 This article has concentrated on artists in Aberystwyth area and the Davies family connections but other works of Belgian artists are still extant in Wales most notably perhaps the carvings in Llanwennog Church, Dyfed.

Dymuna'r awdur ddiolch i bawb a ddarparodd gwybodaeth ynglŷn â'r Belgiaid yng Nghymru, yn arbennig Madame Gevert Minne, Mr Tristan Jones a'r Arglwyddes Eirene White am gael gweld papurau ei thad, a Miss Susan Smithaman.